

TYSTIOLAETH O DDUW YN Y BYD O'N CWMPAS

Nodyn i'r siaradwr:

Mae'r Beibl a'r greadigaeth yn cynnig tystiolaeth o fodolaeth Duw. Yn bellach, mae newidiadau trawiadol y rhai sydd wedi dod i adnabod a gwasanaethu Jehofa yn cyfeirio at ddoethineb a grym sydd y tu hwnt i unrhyw ffynhonnell ddynol. Ysgoga'r gynulleidfa i ymateb yn bositif i'r dystiolaeth ac i dderbyn arweiniad Jehofa yn eu bywydau

PWYSIGRWYDD ARCHWILIO'R DYSTIOLAETH O FODOLAETH DUW (2 fun.)

Mae nifer yn amau neu'n gwadu bodolaeth Duw yn llwyr

Er hynny, mae yna dystiolaeth fawr sydd o blaid bodolaeth Creawdwr

Mae ein penderfyniad i gredu ym modolaeth Duw neu beidio yn cael effaith fawr ar ystyr ein bywydau (*g-E* 3/15 4 ¶1-4)

MAE'R CREAD YN DYSTIOLAETH BOD CREAWDWR YN BODOLI (14 mun.)

Mae trefn y byd materol yn cynnig tystiolaeth am fodolaeth Dylunydd pwrpasol

Ni all system drefnus ddod i fodolaeth ar ei phen ei hun [**Darllena Hebraid 3:4**]

Defnyddiwyd grym aruthrol i ddwyn y bydysawd i fodolaeth

Mae'r bydysawd yn hynod o drefnus (*w11-E* 2/15 6-7 ¶5-7)

Duw Jehofa yw ffynhonnell yr egni a'r drefn sydd i'w gweld yn y bydysawd (*Esei* 40:26, 28)

I gynnal bywyd, mae priodweddau ffisegol y bydysawd wedi'u llunio â manylder perffaith (*g-E* 12/09 5-7; *ct-E* 17-21)

Mae angen person deallus i newid unrhyw beth sydd angen ei fân diwnio

Mae lleoliad a dyluniad cysawd yr haul a'r ddaear yn cynnal bywyd (*w13-E* 10/15 8 ¶6-7; *ct-E* 22-24; *lc* 4-7)

Nid yw'n rhesymol i briodoli tarddiad a chymhlethdod pethau byw i hap a damwain (*g-E* 1/15 4-5)

Ni all wyddonwyr esbonio bodolaeth gydamserol y moleciwlau cymhleth (sef RNA a phrotein) sydd eu hangen fel y gall celloedd fyw ac atgynhyrchu (*lf-E* 4-7)

Yn ôl esblygiadwyr, daeth bywyd cymhleth o fywyd syml

Mewn gwirionedd, nid yw'r un gell fyw yn syml (*lf-E* 8-12)

Mae olion bysedd Dylunydd i'w gweld yn y gallu rhyfeddol DNA i storio gwybodaeth (*Sal* 139:14-16; *g-E* 11/11 4-6; *lf-E* 15-17)

Y CREAD YN DATGUDDIO RHINWEDDAU DUW (5 mun.)

Gall craffu ar y greadigaeth gynnig dirnadaeth am bersonoliaeth Jehofa Dduw [**Darllena Rhufeiniaid 1:20**]

Mae *doethineb* Jehofa i'w gweld yn y cylchredau naturiol sy'n adnewyddu'r ddaear (*w13-E* 10/15 8-9 ¶8-9; *lc* 8-9)

Yn unol â'i *gyflawnder*, plannodd Duw gydwybod ym mhawb (*Rhu* 2:14, 15; *w07-E* 10/15 20-21 ¶5-8)

Cariad yw prif nodwedd Jehofa

Er bod nifer yn anwybyddu Duw neu'n gwadu ei fodolaeth, mae ei gariad tuag at bawb yn amlwg yn yr hyn y mae'n ei ddarparu (*Act* 14:16, 17)

MAE'R BEIBL YN RHOI TYSTIOLAETH MAI DUW YW EI AWDUR (7 mun.)

Mae proffwydoliaethau cywir y Beibl yn dystiolaeth o fodolaeth Duw (*Esei* 46:9, 10)

Daeth proffwydoliaeth fanwl am ddymchwel Babilon 200 mlynedd ymlaen llaw (*g-E* 11/07 9)

Rhagfynegwyd yn gywir amseriad ac ymddangosiad Iesu fel y Meseia ynghyd â manylion o'i fywyd daearol (*g-E* 7/12 22-24)

Yn wahanol i lyfrau hynafol eraill, pan gyffyrddir y Beibl â phethau gwyddonol y mae'n gywir (*g-E* 2/11 22-23)

Yng nghyngor doeth y Beibl y mae nerth i drawsffurfio pobl [*Gweler* cyfres y *Watchtower* "The Bible Changes Lives"]

Dyma ni Greawdwr gofalgwr sydd wedi cyfathrebu â'r ddynolryw (*Esei* 48:17, 18)

GADEWCH I'R CREAWDWR GYFEIRIO'CH BYWYD (2 fun.)

Trwy ddysgu a chymhwyso egwyddorion y Beibl, gallwch chi elwa'n bersonol ar gyfarwyddyd Jehofa (*Sal* 19:7-11)

Yn y dyfodol agos bydd Jehofa yn dileu drygioni ac yn adfer y ddaear, yn unol â'i bwrpas gwreiddiol (*Dat* 21:5)

Nawr yw'r amser i ddod i adnabod Jehofa ac i ddysgu sut i wneud ei ewyllys

Bydd bendithion tragwyddol i'r rhai sy'n gwneud felly

[Glyna'n agos wrth y deunydd yn yr amlinelliad, a chadwa at yr amser a nodwyd ar gyfer pob rhan. Does dim angen darllen na thrafod pob testun y cyfeirir ato. *Gweler* y llyfr *Ministry School*, tudalennau 52-55, 166-169]